# ***Cyngor Cymuned Llandyfriog.***

***Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar Nos Fawrth 5ed o Fai 2023 dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Ken Jones***

***Yn Bresennol.***
Sian Taylor, Elonwy James, Derrick Richards, Alan Davies, Ian James, Branwen Davies, Ann Jones, Ken Jones a Wyn Thomas.

***Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr***
Rhys ap Tegwyn, Meinir Thomas a Carol Davies

***Cadarnnhawyd Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2023.***
(c) Ian James (e) Derrick Richards

***Etholwyd Swyddogion 2023/2024 fel a ganlyn.***

***Cadeirydd y Cynghorydd Ann Jones,*** (c) Sian Taylor (e) Elonwy James

***Is Gadeirydd Y Cynghorydd Meinir Thomas,*** Gofin I hi yn y cyfarfod mis Mehefin.

***Adroddiad Ariannol.***
Cyflwynodd Mrs Gillian Davies y Trysorydd adroddiad am y flwyddyn a aeth heibio, sef yn diweddu ar ddiwedd Mawrth {.2022/2023.}

Cadarnhawyd yr Adroddiad gan y Cynghorwyr (c) Pawb (e) Pawb
Diolchwyd i Mrs Gillian Davies am yr adroddiad manwl yn ol yr arfer, gan y Cadeirydd.

***Unrhyw Fater Arall.***
Diolchodd y Cynghorydd Ken Jones i bawb am eu cymorth yn ystod y flwyddyn, hefyd cyfeiriodd at Mrs Anwen Evans y Clerc, a Mrs Gillian Davies y Trysorydd ,yn arbennig am y cydweithio hwylus arferol a gafwyd.

Diolchodd hefyd ir Cynghorydd Sir, Mr Wyn Thomas am ei gefnogaeth frwd yn ystod y flwyddyn.

Diolchodd y Cynghorydd Sir, Mr Wyn Thomas hefyd ir Cadeirydd sef y Cynghorydd Ken Jones am ei gaith didwyll yn ystod y flwyddyn,a aeth heibio.

Trosglwyddwyd Gadwyn y Cyngor ir Cadeirydd newydd sef y Cynghorydd Ann Jones yn ol yr arfer gan y cyn Gadeirydd sef y Cynghorydd Ken Jones

Dymunwyd yn dda ir Cadeirydd Newydd am y flwyddyn 2023-2024 ganddo ac hefyd rhoddodd ddiolch ir Cynghorwyr oll am eu gwaith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Gyda hynny daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben..